

# Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd  
yng Nghapel Tabernacl, Bodedern,  
Nos Lun, 26 o Fedi 2016 am 7 yr hwyr.

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau.

### Presennol:

Mr. Adrian Jones (cadeirydd) **AJ**, Mrs Eluned Ann Burgess Thomas **EABT**, Mrs Linda Jones **LJ**,  
Mr Victor Owen **VO**, Cynghorwr John Griffith **JG**, Ms Rhian Wyn Owen **clerc**.

### Ymddiheuriadau:

Ms Cari Jones **CJ**, Mr OG Roberts **OGR**.

## 2. Datgan Diddordeb. JG ynglyn ac Eitem 5.

## 3. Cofnodion Gorffennaf 2016 a unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

Adroddwyd fod pawb wedi derbyn copiau o gofnodion Gorffennaf 2016, a derbyniwyd yn gywir.

3.1 Nododd **JG** fod trefniadau yn dal i gael ei gwneud o ran y gwaith o redeg Canolfan Bro'r Ysgol ond nid oes unrhyw benderfyniadau terfynol wedi'u gwneud. Fodd bynnag, mae trefniadau tymor byr mewn lle a gall y ganolfan gael ei defnyddio.

3.2 Adroddodd **AJ** ei fod wedi cyfarfod a cynrychiolydd o **MON CF** yn y Maes Chwrae, a trafodwyd y posibilrwydd o symud y goliau er mwyn ceisio arbed peli yn taro'n erbyn y ffens. Bydd **MON CF** yn cysylltu a'r Cyngor Cymuned gyda amcangyfrif ar gyfer eu ystyriaeth.

3.3 Ymhellach i gwyn am flodau gwastraff yn y fynwent, adroddodd **AJ** ei fod wedi bod yn monitor'r biniau ac roedd digon o le i ddal y blodau gwastraff ac nid oes angen unrhyw finiau ychwanegol.

3.4 Nododd y clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Adran Priffyrdd ynglyn a'r cwyn fod ceir yn parcio gyferbyn i fynedfa Maes Gwynfa. Nid yw'r Adran Briffyrdd o'r farn byddai llinellau melyn yn addas yn y cyd destyn yma. Drwy helpu llif y traffig yn yr ardal hon y gallai hyn arwain at gynnydd mewn cyflymder traffig. Nodwyd gan yr Adran Briffyrdd beth bynnag y cyfyngiadau traffig a pharcio, roedd disgwyl i berchnogion cerbydau i gadw at y cod briffordd sy'n nodi na ddylai unrhyw un barcio o fewn i 10 Medr i gyffordd.

3.5 Darllenwyd e-bost gan Roy Hincliffe, **CSYM** yn nodi fod y mater o gor yrru ger Maes Edeyrn wedi ei yrru ymlaen i "Go Safe" er mwyn monitor'r cyflymder. Nododd na fyddai **CSYM** yn cysidro mesurau tawelu traffig ar y **B5109** gan mai dyma'r brif dramwyfa drwy'r pentref, a dim ond o dan y meini prawf llymaf byddai **CSYM** yn ystyried gosod mesuriadau tawelu traffig ar ffordd B.

3.6 Darllenwyd lythur ymateb gan Mr Glyn Williams, perchennog Cartref Gwyddfor yn nodi ei fod yn ymwybodol o'r anhawsterau gyda'r sefyllfa parcio, ac eu bod yn gobeithio byddai'r sefyllfa yn gwella unwaith byddai'r gwaith yn dod i ben erbyn diwedd mis Awst.

## 4. Maes Chwrae/Ffrindiau Bodedern.

Dim i'w adrodd.

Clerc/ Clerk:  
Ms. Rhian Wyn Owen,  
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachraeth,  
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940  
Nos /evening: (01407) 749 162  
Symudol /mobile: 07802 754 187  
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

# Cyngor Cymuned Bodedern



## 5. Materion Cynllunio.

### 5.1 Cais Rhif 27C106D/SCR

Barn sgilio am welliannau Priffyrdd A5025 ar lein rhwng y Fali i'r ardal Datblygu Newydd Wylfa. Cynghorwyd yr aelodau i edrych dros y cynlluniau ar-lein gan fod lefel sylweddol o wybodaeth i'w edrych arno.

### 5.2 Cais Rhif 13C167A

Cais llawn i godi 2 annedd ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau ar dir ger 7 Bron y Graig, Bodedern. Dim gwrthwynebiad.

## 6. Gohebiaeth.

6.1 Cofnodion cyfarfod Fforwm Cyswllt a Cynghorau Tref a Chymuned. Nodwyd y cynnwys.

6.2 Derbynydd llythyr gan y comisiwn ffiniau. Nodwyd y cynnwys.

## 7. Seddau gwag y cyngor cymuned.

Nododd y clerc fod y sedd wag diweddaraf wedi ei hysbysu, gyda neb yn dod ymlaen. Nododd fod 3 set wag arall, ond nad oedd wedi eu hysbysu heb ddod i sylw'r aelodau. Y clerc i barhau i hysbysu y 3 sedd wag ychwanegol.

## 8. Materion Cyffredinnol yn codi.

Nododd y clerc ei bod wedi ysgrifennu at berchennog cartref ger mynedfa Bro'r Ysgol i ofyn a fyddai'n agored i ganiatau i hysbysfwrdd cymunedol cael ei osod wrth ei wal. Ni dderbyniwyd ymateb. Awgrymwyd nifer o safleoedd eraill, gan gynnwys gyferbyn â'r swyddfa bost leol ac wrth yr unedau Gweithdai Gwledig. Nodwyd dylai'r hysbysfwrdd fod mewn lle amlwg. Darparodd y clerc catalog yn dangos y gwahanol fathau o hysbysfyrddau sydd ar gael. Nodwyd eu bod yn gostus, a chytunwyd y dylai'r clerc edrych ar opsiynau eraill i sicrhau y pris mwyaf cystadleuol.

# Cyngor Cymuned Bodedern



## 9. Eisteddfod.

Adroddwyd bod codi arian yn parhau, ac roedd llawer o ddigwyddiadau ar y gweill. Nodwyd bod y cyngor eto i wneud cyfraniad, ond byddai hyn yn dod i law.

## 10. Taliadau i'w gwneud.

Mon Grass Cutting: MGC2095

MGC2096                      rhif siec 100892                      £500.00

AON Insurance                      rhif siec 100893                      £618.16 (yn lle siec 100885 )

## 11. Unrhyw fater arall.

11.1 Nododd **AJ** fod trigolion lleol wedi mynegi dymuniad i weld golwg cyffredinol y pentref yn gwella. Nodwyd bod nifer o dai yng Nghemaes wedi eu paentio a oedd wedi gwella'n fawr golwg cyffredinol y pentref. Cytunwyd i'r clerc gysylltu â clerc Cemaes am wybodaeth pellach ynglŷn â sut y cyflawnwyd hyn. Nodwyd hefyd y byddai yn ddymunol gwneud gwelliannau o mewn y pentref a fyddai'n arddangosiad i drigolion y pentref o'r cyngor cymuned yn gweithredu, a hefyd yn annog balchder yn y gymuned. Fel modd i agor sianeli cyfathrebu gyda trigolion lleol, cytunwyd i roi hysbysiad yn y Rhwyd yn hysbysu trigolion fod gwefan newydd ar lein a fydd yn rhoi gwybodaeth a golwg ar y gwaith a wnaed gan y cyngor cymuned.

11.2 Nododd **EABT** bod gwelliannau i'r "George" wedi codi delwedd Stryd Llundain, a dymunai i'r cyngor cymuned ddiolch iddynt am hyn. Y clerc i yrru llythur o ddiolch.

11.4 Nododd **LJ** bod Lon Dywyll eto mewn cyflwr gwael, ond nodwyd fod CSYM yn ymwybodol o'r sefyllfa, ond oherwydd torriadau difrifol i gyllideb nid yw ar hyn o bryd yn cael blaenoriaeth.

11.3 Nododd **LJ** nad oedd y clerc blaenorol, Mrs Iona Jones, wedi bod yn dda ei hiechyd yn ddiweddar, a chytunwyd i'r clerc yrru cerdyn yn mynegi dymuniadau da y cyngor cymuned am wellhad buan.

## 12. Dyddiad cyfarfod nesaf.

Nodwyd fod y cyfarfod nesaf i'w gynnal 24 Hydref 2016.

Diwedd 8.10 o'r gloch.

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

Clerc/ Clerk:  
Ms. Rhian Wyn Owen,  
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachraeth,  
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940  
Nos /evening: (01407) 749 162  
Symudol /mobile: 07802 754 187  
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

# *Cyngor Cymuned Bodedern*



Arwyddwyd:

Dyddiad:

---

---

Clerc/ Clerk:  
Ms. Rhian Wyn Owen,  
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachraeth,  
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940  
Nos /evening: (01407) 749 162  
Symudol /mobile: 07802 754 187  
[cyngorcymunedbodedern@outlook.com](mailto:cyngorcymunedbodedern@outlook.com)

# *Cyngor Cymuned Bodedern*



Clerc/ Clerk:  
Ms. Rhian Wyn Owen,  
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachraeth,  
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940  
Nos /evening: (01407) 749 162  
Symudol /mobile: 07802 754 187  
[cyngorcymunedbodedern@outlook.com](mailto:cyngorcymunedbodedern@outlook.com)

# *Cyngor Cymuned Bodedern*



Clerc/ Clerk:  
Ms. Rhian Wyn Owen,  
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachraeth,  
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940  
Nos /evening: (01407) 749 162  
Symudol /mobile: 07802 754 187  
[cyngorcymunedbodedern@outlook.com](mailto:cyngorcymunedbodedern@outlook.com)